Estyn

*Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Cemaes
# Cemaes
# Ynys Môn
# LL67 0LB

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2012

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Iechyd ar Waith
Cyrraedd y Nod
The Corporate Standard
Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd
Green Dragon Environmental Standard

Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 18/12/2012**

## Cyd-destun

Ysgol gynradd wledig yw Ysgol Cemaes sydd wedi ei lleoli ym mhentref bychan Cemaes ar arfordir gogleddol Ynys Môn. Mae'n gwasanaethu'r pentref ei hun a'r ardal o'i chwmpas, sy'n cael ei disgrifio fel un o dan anfantais economaidd. Mae 62 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, sydd yn gynnydd sylweddol dros gyfnod o ddwy flynedd..

Cymraeg yw prif gyfrwng iaith yr ysgol ac anelir at sicrhau bod y disgyblion yn gwbl ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i'r sector uwchradd. Mae ystadegau Llywodraeth Cymru yn nodi bod 53% o ddisgyblion yn siarad Cymraeg yn y cartref. Fodd bynnag, mae'r ysgol yn dweud mai 4% sydd yn dod o gartrefi Cymraeg.

Mae 25% o ddisgyblion â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim sy'n uwch na'r canrannau sirol a chenedlaethol. Mae 31% o'r disgyblion yn derbyn cymorth anghenion addysgol ychwanegol sy'n uwch na'r ffigwr cenedlaethol (21.2%). Mae nifer fach o'r disgyblion ar ddatganiad yn yr ysgol ar hyn o bryd.

Mae'r pennaeth presennol yn ei swydd ers Ionawr 2010.

Y gyllideb fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Cemaes yn 2012-2013 yw £6,837. Yr uchafswm o ran cyllideb ysgol fesul disgybl yn ysgolion cynradd Sir Fôn yw £10,188 a'r lleiafswm yw £2,842. Mae Ysgol Gynradd Cemaes yn y 3ydd safle allan o'r 48 ysgol gynradd yn Sir Fôn o safbwynt y gyllideb fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol Ysgol Cemaes yn ddigonol gan fod:

- medrau llafar y disgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n fuan;
- yr ysgol yn gymuned hapus a gofalgar;
- yr ysgol yn trefnu darpariaeth effeithiol i helpu disgyblion unigol a grwpiau sydd ag angen cymorth ychwanegol; a
- gwneir defnydd priodol o asesiadau safonol blynyddol ar gyfer mesur cynnydd disgyblion.

Er hynny:

- mae canlyniadau asesiadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 mewn Cymraeg yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg, a chyfartaledd Cymru dros gyfnod o bum mlynedd;
- nid yw mwyafrif y disgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud digon o gynnydd mewn llafaredd a darllen Cymraeg;
- nid yw darpariaeth egwyddorion y Cyfnod Sylfaen wedi datblygu'n llawn; ac
- nid yw'r ysgol yn cynllunio'n ddigon bwriadus ar gyfer datblygu'r medrau ar draws y cwricwlwm.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella Ysgol Cemaes yn ddigonol gan fod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n cael ei rhannu'n llwyddiannus gyda'r staff, llywodraethwyr, rhieni a phlant;
- y corff llywodraethol yn gefnogol iawn i fywyd a gwaith yr ysgol ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau; a bod
- partneriaethau cadarn iawn gyda'r rhieni a'r gymuned sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at brofiadau a deilliannau'r dysgu.

Er hynny:

- nid yw rôl y llywodraethwyr eto wedi datblygu'n llawn i herio'r ysgol ynghylch ei pherfformiad;
- nid yw arweinwyr yr ysgol yn defnyddio data yn ddigon effeithiol i osod targedau heriol a meintiol er mwyn codi safonau; ac
- nid yw arweinyddiaeth yr ysgol yn monitro darpariaeth y Cyfnod Sylfaen yn ddigon effeithiol.

## Argymhellion

A1 Codi safonau mewn medrau llafaredd a darllen Cymraeg.

A2 Cynllunio'n fwy bwriadus i sicrhau datblygiad medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm.

A3 Gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn llawn.

A4 Cryfhau rôl arweinyddion yr ysgol i ddefnyddio data yn fwy effeithiol er mwyn codi safonau.

A5 Datblygu ymhellach rôl y corff llywodraethol fel cyfeillion beirniadol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando'n dda ar eu hathrawon ac yn barod iawn i gynnig atebion neu sylwadau wrth siarad am eu gwaith. Mae mwyafrif y disgyblion ar draws yr ysgol yn dwyn i gof ddysgu blaenorol yn dda gan ddefnyddio'r wybodaeth yn effeithiol i ddatblygu medrau newydd.

Mae mwyafrif y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd priodol yn eu defnydd o'r Gymraeg o'r amser maent yn dechrau yn yr ysgol. O ystyried eu cefndir ieithyddol, mae eu medrau llafar yn datblygu'n fuan. Cyfranna'r mwyafrif yn frwdfrydig mewn trafodaethau dosbarth gan ddefnyddio geirfa addas o fewn cyd-destun penodol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfathrebu'n effeithiol yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae mwyafrif y disgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau darllen. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen mae'r mwyafrif yn medru darllen yn hyderus ar goedd lyfrau sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Serch hynny, nid oes ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r hyn maent yn ei ddarllen, yn enwedig yn y Gymraeg.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n ddarllenwyr annibynnol yn y ddwy iaith. Defnyddiant lyfrau gwybodaeth yn effeithiol i gywain a chyflwyno gwybodaeth wrth ymchwilio i destun penodol. Er hynny, nid yw mwyafrif y disgyblion yn gwneud yr un cynnydd yn y Gymraeg. Mae'r diffyg hyder a dealltwriaeth o'r testun yn effeithio ar fwynhad a rhuglder y darllen.

Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol yn eu darllen Saesneg yn erbyn eu targedau. Serch hynny, nid yw'r un datblygiad i'w weld yn y Gymraeg.

Mae mwyafrif y disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd priodol yn eu hysgrifennu yn y Gymraeg. Mae'r goreuon yn defnyddio cystrawen gadarn a geirfa briodol sy'n gysylltiedig â'r dasg. Serch hynny, mae gorddefnydd o daflenni gwaith yn llesteirio ysgrifennu rhydd ar draws y meysydd dysgu

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu'n ddeallus mewn ystod eang o ffurfiau ysgrifennu yn y ddwy iaith. Yn Saesneg, maent yn dangos safon briodol o ran cywirdeb iaith ac yn trefnu eu gwaith yn baragraffau. Mae diffyg geirfa a defnydd o gystrawennau sylfaenol a chwithig yng ngwaith lleiafrif o'r disgyblion yn y Gymraeg. Mae cyflwyniad gwaith rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn daclus.

Gan mai nifer cymharol fach o ddisgyblion sydd yn yr ysgol, rhaid trin y data yn ofalus gan fod canlyniadau un plentyn yn cyfri am ganran uchel o'r garfan ymhob blwyddyn.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae cyflawniadau ar y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn cymharu'n ffafriol â chyfartaleddau ysgolion y teulu, yr awdurdod a Chymru. Mae perfformiad yr ysgol ar ddeilliant 6 yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf a 50% i 25% uchaf ymhob maes dysgu o gymharu ag ysgolion o ran hawl i brydau ysgol am ddim.

Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 4), mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad (DPC) wedi bod yn gyson is na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg dros y pum mlynedd diwethaf. Mae cyflawniad y disgyblion mewn llafaredd a darllen Cymraeg wedi bod yn sylweddol is na ffigyrau teulu a Chymru dros gyfnod ac wedi gostwng yn y ddwy flynedd diwethaf.

Yn gyffredinol, nid oes bwlch arwyddocaol rhwng cyflawniadau'r bechgyn a'r merched, ac eithrio ar ddeilliant 6 yn y Cyfnod Sylfaen ac ar y lefelau uwch yn Saesneg yng nghyfnod allweddol 2.

Mae cyflawniad y disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim yn cymharu'n ffafriol gyda chyflawniadau gweddill y disgyblion.

**Lles: Da**

Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn dangos diddordeb yn eu gwaith ac mae agweddau y rhan fwyaf tuag at eu dysgu yn dda. Maent yn dangos cymhelliant i gyfrannu yn y gweithgareddau trwy ymatebion llafar a gwaith grŵp. Mae ymddygiad y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda o fewn y dosbarthiadau ac yn ystod egwyl ac amser cinio. Mae bron pob un yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

Mae medrau cymdeithasol rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n briodol. Maent yn cydweithio'n gyfrifol mewn grwpiau dysgu amrywiol a hynny am gyfnod priodol o amser. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gweithio'n annibynnol ac yn gallu gwneud penderfyniadau ynglŷn â'r hyn maent yn ei ddysgu. Serch hynny, nid yw hyn wedi ei ddatblygu'n llawn ar draws yr ysgol.

Trwy waith y cyngor ysgol a chyngor eco, mae mwyafrif y disgyblion yn dangos dealltwriaeth briodol o'u rôl a'u cyfrifoldebau, a thrwy holiaduron, maent yn dechrau cyfrannu'n effeithiol i fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta'n iach a chadw'n heini, sy'n cael ei meithrin yn briodol drwy waith thema a chlybiau ffitrwydd yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yr ysgol yn datblygu eu ymwybyddiaeth o gymdeithas medrau cymdeithasol yn dda ac yn elwa o gysylltiadau gyda'r gymuned. Enghraifft o hyn yw'r cysylltiad rheolaidd sydd rhwng yr ysgol a'r Wylfa.

Mae presenoldeb yr ysgol yn dda ac yn gyson yn y 25% i 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i ginio am ddim.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys yng nghyfnod allweddol 2 ac yn cynllunio gweithgareddau symbylol sy'n ennyn diddordeb y disgyblion. Caiff gwersi

unigol eu cynllunio'n briodol ond nid yw'r cynlluniau yn dangos dilyniant a pharhad yn y medrau yn ddigon penodol. Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd yn anghyson. Mae hyn yn amharu ar allu'r disgyblion i'w defnyddio ar draws ystod o bynciau. Darperir nifer o gyfleoedd priodol ar draws y cwricwlwm i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r disgyblion ac maent yn cael eu defnyddio'n effeithiol ar draws y pynciau.

Mae athrawon a chymorthyddion y Cyfnod Sylfaen wedi dechrau ar y broses o gydgynllunio ond nid yw hyn wedi datblygu'n llawn. O ganlyniad, nid yw cynlluniau'r ysgol ar gyfer gofynion y Cyfnod Sylfaen yn llawn weithredol eto. Nid yw'r ddarpariaeth yn hyrwyddo annibyniaeth y disgyblion ddigon.

Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth o brofiadau sy'n hyrwyddo'r dimensiwn Cymreig trwy ymweliadau gan feirdd, ymweliadau lleol a gwaith thema.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw dyledus i agweddau ar gynaliadwyedd a'r amgylchfyd trwy amrywiaeth o weithgareddau. Mae gan yr ysgol ardd lysiau ac mae'r staff a'r disgyblion yn compostio gwastraff gwyrdd ar gyfer ei ddefnyddio fel gwrtaith yn yr ardd. Trwy ailgylchu a monitro defnydd o ddŵr ac ynni mae dealltwriaeth y disgyblion o gynaliadwyedd yn dda.

Caiff dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliannau eraill ei datblygu'n briodol mewn rhai dosbarthiadau trwy astudiaethau a chysylltiadau gyda gwledydd eraill. Er hynny, nid yw'r agwedd hon wedi ei chynllunio'n ddigon bwriadus ar draws yr ysgol.

**Addysgu: Digonol**

Mae perthynas waith briodol dda rhwng athrawon a'r rhan fwyaf o'r disgyblion sy'n hybu hyder a hunan-barch yn dda. Mae athrawon yn gwneud defnydd priodol o gymorthyddion i roi cymorth ychwanegol i grwpiau ac unigolion penodol.

Yn hanner y gwersi a arsylwyd, lle mae'r addysgu ar ei orau, dengys yr athrawon wybodaeth bynciol dda ac mae'r cynllunio'n adeiladu'n briodol ar brofiadau blaenorol. Cyfeirir yn rheolaidd at nodau'r wers er mwyn sicrhau dealltwriaeth y disgyblion. Mae cyflwyniadau yn gryno a chlir a gwneir defnydd effeithiol o gwestiynu er mwyn herio disgyblion mwy abl.

Yn hanner y gwersi lle nad yw'r addysgu cystal mae gorgyfarwyddo ac nid yw'r gweithgareddau yn annog y disgyblion i feddwl drostynt eu hunain. Nid yw'r tasgau bob tro wedi eu gwahaniaethu'n ddigonol i ymateb i'r ystod gallu llawn.

Mae'r strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn datblygu'n briodol ond nid yw hyn yn gyson ar draws yr ysgol. Mae gwaith y disgyblion yn cael ei farcio'n rheolaidd ac mewn mannau, mae sylwadau adeiladol yn cyfeirio at sut i wella'r gwaith. Er hynny, nid yw hyn yn gyson ac nid yw'r disgyblion yn cael cyfle i ymateb i'r sylwadau.

Gwneir defnydd priodol o asesiadau safonol blynyddol ar gyfer mesur cynnydd disgyblion. Mae'r broses o olrhain cynnydd disgyblion drwy'r ysgol wedi ei sefydlu'n gadarn ac mae'r ysgol yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol i adnabod anghenion disgyblion penodol. Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn rhoi darlun clir o gyrhaeddiad a chynnydd disgyblion.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r ysgol yn gymuned ofalgar sy’n hyrwyddo a chefnogi lles ac iechyd y disgyblion yn briodol. Mae cyswllt agos rhwng y gymuned a’r ysgol sy’n cryfhau'r ymdeimlad o berthyn. Mae bron pob disgybl yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn dda ac mae datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn cael ei hyrwyddo’n llwyddiannus.

Mae clwb brecwast a chlybiau ar ôl ysgol llwyddiannus yn cefnogi lles y disgyblion a gwaith yr ysgol yn ddyddiol.

Mae’r ysgol yn trefnu darpariaeth effeithiol i helpu disgyblion unigol a grwpiau sydd ag angen cymorth ychwanegol. Mae’r gweithdrefnau hyn yn bodloni gofynion statudol yn llawn. Gwneir defnydd effeithiol o asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol, cymdeithasol a lles i gefnogi unigolion. Mae cynlluniau addysgol unigol yn nodi targedau’n glir ac fe adolygir cynlluniau addysg unigol yn rheolaidd er mwyn adnabod cynnydd a nodi’r camau nesaf yn eu dysgu. Gwneir defnydd effeithiol o brofion safonol a diagnostig i adnabod yn gynnar y disgyblion sydd ag anghenion neu’r rhai sy’n fwy abl a thalentog.

Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn gymuned glos, ofalgar a chroesawgar a cheir awyrgylch cynnes ymhlith y staff a’r disgyblion. Mae polisïau’r ysgol yn hyrwyddo cyfle cyfartal yn briodol ac mae pob disgybl yn cael cyfleoedd i fod yn rhan o dimau chwaraeon ac i fynychu clybiau niferus sydd ar gael ar ôl ysgol.

Mae’r ysgol yn gwneud defnydd da o’r adeilad a’r adnoddau. Mae’r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu lliwgar ac ysgogol sy’n cyfoethogi profiadau dysgu’r disgyblion yn dda. Mae pob dosbarth yn ddeniadol a’r arddangosfeydd yn dangos gwaith cyfredol y disgyblion. Mae’r disgyblion yn dangos parch i’w hamgylchfyd dysgu ac i’r adnoddau.

Caiff yr adeilad a’r safle eu cynnal a’u cadw’n raenus.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy’n cael ei rhannu’n llwyddiannus gyda’r staff, llywodraethwyr, rhieni a phlant. Mae’r pennaeth wedi rhoi nifer o weithdrefnau ar waith gan gynnwys codi proffil y Gymraeg, monitro safonau addysgu a dysgu a sefydlu system effeithiol i olrhain cynnydd disgyblion drwy’r ysgol. Fodd bynnag, nid yw’r prosesau hyn wedi eu datblygu’n llawn eto i weld eu heffaith ar gyflawniad disgyblion.

Mae gan bob aelod o'r staff ddisgrifiadau swyddi priodol ac mae eu cyfrifoldebau wedi eu diffinio'n glir.  Trwy rannu gwybodaeth am gyflawniad disgyblion, mae'r ysgol yn dechrau gwneud defnydd priodol o ddata er mwyn gweithredu ar flaenoriaethau gwelliant.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i fywyd a gwaith yr ysgol ac maent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau.  Mae gan y llywodraethwyr wybodaeth dda am fywyd yr ysgol ac mae nifer ohonynt yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd.  Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o anghenion yr ysgol.  Mae'r llywodraethwyr yn dechrau defnyddio data'r ysgol i drafod perfformiad yr ysgol.  Serch hynny, nid yw eu dealltwriaeth o ddata ac o safonau'r ysgol wedi datblygu digon i herio'r ysgol ynglŷn â'i pherfformiad.

Llwydda'r ysgol i ymateb yn gadarnhaol i nifer o flaenoriaethau cenedlaethol drwy fynd i'r afael â chodi safonau llythrennedd a datblygu medrau meddwl y disgyblion a systemau asesu ar gyfer dysgu.  Nid yw'r ysgol wedi mynd i'r afael yn llawn ag egwyddorion y Cyfnod Sylfaen.

**Gwella ansawdd:  Digonol**

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn cynnig darlun priodol o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae gan yr ysgol hefyd drefniadau priodol ar gyfer canfod barn rhieni a disgyblion drwy holiaduron sy'n cael eu defnyddio'n briodol ar gyfer y broses gwella ansawdd. Mae'r staff yn ymwybodol o'i phwrpas a'i heffaith ar fywyd yr ysgol.  Serch hynny, nid yw'r ysgol wedi nodi'n ddigon clir y diffygion yn narpariaeth y Cyfnod Sylfaen.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer gwella ansawdd, sy'n cynnwys ystyried sylwadau a barn staff, rhieni, llywodraethwyr a disgyblion.  Rhoddir sylw priodol i dystiolaeth am ansawdd yr addysgu a'r dysgu drwy arsylwadau dosbarth, gan wneud defnydd pwrpasol o adroddiadau monitro'r awdurdod.

Mae cyswllt agos rhwng y cynllun datblygu cyfredol a'r adroddiad hunan arfarnu. Mae'r cynllun datblygu yn nodi bwriadau priodol gyda therfynau amser addas, ac mae cyfrifoldebau wedi eu dyrannu'n briodol i wahanol aelodau'r staff.  Serch hynny, nid yw bwriadau'r cynllun datblygu wedi eu blaenoriaethu'n ddigon eglur.  Nid yw data perfformiad yr ysgol yn cael ei ddefnyddio'n ddigon manwl gan arweinyddion yr ysgol i bennu blaenoriaethau clir a mesuradwy.

Mae'r staff yr ysgol wedi dechrau cydweithio gydag ysgolion y clwstwr i godi safonau darllen Saesneg.  Mae hyn yn dechrau cael effaith ar gyflawniad disgyblion.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae'r partneriaethau gyda'r rhieni a'r gymuned yn effeithiol ac yn cyfrannu'n llwyddiannus at y profiadau dysgu.  Enghraifft dda o hyn yw'r defnydd a wneir o wirfoddolwyr sy'n ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i wrando ar y disgyblion yn darllen. Mae'r rhan flaengar a gymerodd yr ysgol yn y fenter 'Cemaes mewn blodau' yn arwydd o'r cyswllt cryf rhwng yr ysgol a'r gymuned.  Mae cyswllt cryf yn bodoli hefyd rhwng yr ysgol a'r Wylfa, sy'n cefnogi a chyfoethogi profiadau'r disgyblion ynglŷn â chynaliadwyedd.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ysgolion cyfagos i gymedroli gwaith disgyblion i sicrhau cysondeb yn eu hasesiadau a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae cynlluniau trosglwyddo effeithiol yn bodoli rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd, sy'n paratoi'r disgyblion hŷn yn briodol ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg. Mae'r ysgol wedi creu partneriaeth effeithiol gyda'r brifysgol ym Mangor drwy gydweithio ar brosiectau cwricwlwaidd.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol ddigon o staff i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Caiff athrawon eu cefnogi'n addas gan y cymorthyddion dosbarth, sydd yn gyffredinol yn rhoi cymorth priodol i unigolion neu grwpiau o ddisgyblion yn y gwersi.

Mae'r ysgol yn bodloni gofynion cenedlaethol wrth sicrhau trefniadau athrawon ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu, sy'n cael eu defnyddio'n effeithiol.

Mae trefniadau priodol ar waith ar gyfer rheoli perfformiad i athrawon yr ysgol. Darperir cyfleoedd hyfforddiant ar gyfer datblygiad proffesiynol yn unol â blaenoriaethau'r ysgol.

Mae gan yr ysgol ystod dda o adnoddau sy'n cael eu defnyddio'n addas i hyrwyddo a chyfoethogi'r dysgu. Serch hynny, ni wneir defnydd llawn o'r ardal tu allan i gyfoethogi profiadau ac i ymateb yn llawn i egwyddorion y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r corff llywodraethol yn trin a thrafod cyllideb flynyddol yr ysgol ac yn ei monitro'n effeithiol er mwyn sicrhau cyflenwad digonol o adnoddau i ymateb i anghenion yr ysgol.

O ystyried deilliannau'r disgyblion dros gyfnod, mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Mae perfformiad yr ysgol ar ddeilliant 5 ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg, a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol, yn cymharu'n ffafriol a'r teulu o ysgolion, awdurdod a Chymru. Mae'n gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion o ran hawl i brydau ysgol am ddim.

Er nad yw perfformiad yr ysgol mewn datblygiad mathemategol ar ddeilliant 5 yn cymharu cystal â chyfartaleddau ysgolion y teulu, yr awdurdod a Chymru, llwyddodd 43% o'r disgyblion i gyrraedd y deilliant uchaf (Deilliant 6) Mae perfformiad yr ysgol ar ddeilliant 6 yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf a 50% i 25% uchaf ymhob maes dysgu o gymharu ag ysgolion o ran hawl i brydau ysgol.

Yn gyffredinol tros gyfnod o amser, mae perfformiad yr ysgol mewn Cymraeg Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn is na chyfartaleddau'r teulu, awdurdod a Chymru dros y pum mlynedd diwethaf. Mae'n gosod yr ysgol ymhlith y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i brydau ysgol am ddim am ran helaeth o'r amser. Mae perfformiad mewn llafaredd a darllen Cymraeg wedi bod yn sylweddol is na ffigyrau teulu a Chymru am gyfnod o amser ac wedi gostwng dros y ddwy flynedd diwethaf.

Yn gyffredinol, nid yw cyflawniad disgyblion ar lefel 5 neu uwch yn y pynciau craidd yn cymharu'n ffafriol ag ysgolion y teulu dros y 5 mlynedd diwethaf. Mae canrannau'r disgyblion sy'n cyrraedd lefel 5 mewn Saesneg wedi gostwng dros y tair blynedd diwethaf.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr**

Derbyniwyd 27 o ymatebion gan ddisgyblion cyfnod allweddol 2.

Mae pob disgybl yn nodi:

- bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio a'u bod yn gwybod pwy i siarad ag ef/hi os ydynt yn poeni neu'n gofidio; a'u
- bod yr athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd a'u bod yn gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydynt yn gweld y gwaith yn anodd.

Mae bron pob un yn nodi:

- bod llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i gael ymarfer corff yn rheolaidd a bod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw'n iach;
- bod y gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith yn yr ysgol; a'u
- bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

Mae ychydig yn nodi:

- bod bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. Mae hyn yn llawer is na'r ffigwr cenedlaethol o 77% ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru.

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd 21 o ymatebion wedi eu llenwi gan rieni/gofalwyr.

Mae pob un yn cytuno:

- bod y staff yn disgwyl i'w plentyn wneud ei orau a'u bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plentyn;
- bod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff;
- bod eu plentyn yn ddiogel yn yr ysgol bod y staff yn trin pob plentyn gyda pharch;
- eu bod yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion; a
- bod yr ysgol yn helpu'r plant i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb.

Mae bron pob un yn cytuno:

- bod yr addysg yn dda.

Mae rhan fwyaf yn cytuno:

- bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda yn credu bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da;

- eu bod yn fodlon gyda'r ysgol a bod y gwaith cartref yn adeiladu ar yr hyn a ddysgir yn yr ysgol;
- bod disgyblion yn ymddwyn yn briodol a bod eu plant yn hoffi'r ysgol;
- bod eu plentyn wedi cael cymorth i ymgartrefu yn yr ysgol a bod amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau; ac
- eu bod yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.

Mae llawer yn credu:

- bod eu plentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf; a
- bod eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Anwen Griffith | Arolygydd Cofnodol |
| Prydwen Elfed-Owens | Arolygydd Tîm |
| Jeremy Turner | Arolygydd Lleyg |
| Delyth Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Richard Holland | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

**Cwricwlwm Cenedlaethol**

**Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol**

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i’r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i’r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

**Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol**

Mae’r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â’r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni’r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â’u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy’n byw yn 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy’n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.